OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 565

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## RHAN 2

### Sgrinio

**Y gofyniad am benderfyniad sgrinio**

**4.**—(1) Ni chaiff person ddechrau neu gyflawni prosiect ar dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin oni bai ei fod yn gyntaf wedi cael penderfyniad sgrinio sy'n rhoi caniatâd i'r prosiect fynd yn ei flaen.

(2) Ni chaiff person ddechrau neu gyflawni prosiect ailstrwythuro sydd o faint sy'n hafal i'r trothwy cymwys (a gyfrifir yn unol â rheoliad 5) neu'n uwch na hynny oni bai ei fod yn gyntaf wedi cael penderfyniad sgrinio sy'n rhoi caniatâd i'r prosiect fynd yn ei flaen.